



Cyngor Castell-nedd Port Talbot  
Neath Port Talbot Council

Dyddiad/ Date	9ed Chwefror 2021
Rhif Ffôn/ Direct Line	01639 763298
Ebost/ Email	
Cyswllt/ Contact	Aled Evans
Eich cyf / Your ref	
Ein cyf/ Our ref	AE01

Annwyl Riant / Gofalwr,

Byddwch yn ymwybodol, rwy'n siŵr, bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r dychweliad graddol i ddysgu wyneb yn wyneb ar gyfer ein dysgwyr Cyfnod Sylfaen (plant 3 - 7 oed) o 22ain Chwefror.

Rydym yn edrych ymlaen at gefnogi ein hysgolion yn eu dulliau o groesawu plant yn ôl a sicrhau eu bod yn elwa o ddarpariaeth dysgu a lles a fydd yn diwallu eu hanghenion yn dilyn cyfnod o aflonyddwch sylweddol.

**Bydd ysgolion unigol yn hysbysu rhieni a gofalwyr o drefniadau lleol ynghylch dychweliad graddol dysgwyr a bydd y rhain yn seiliedig ar ystyriaethau a fydd yn berthnasol i bob lleoliad. Fodd bynnag, disgwylir y bydd holl ddysgwyr y Cyfnod Sylfaen wedi dychwelyd i ddarpariaeth arferol erbyn diwedd yr wythnos honno.**

Mae cyfraddau trosglwyddo cymunedol COVID-19 yn CNPT bellach yn sylweddol is nag yr oeddent ar ddechrau'r flwyddyn a hoffem ddiolch i chi am eich ymdrechion i arfer ymddygiadau a mesurau sydd wedi cael effaith mor gadarnhaol ar y cyfraddau hyn.

Hoffem hefyd ddiolch i'n holl weithlu addysg am eu gwaith caled parhaus a'u hymroddiad i sicrhau bod dysgu o bell ac ymgysylltu wedi'u cynnal yn ystod amseroedd heriol iawn i'n disgyblion.

Fodd bynnag, gwyddom nad yw hyd yn oed y ddarpariaeth dysgu o bell fwyaf effeithiol yn gwneud yn iawn am gyfoeth y profiad y gellir ei ennill o ymgysylltu wyneb yn wyneb. Rydym hefyd yn gwybod bod dysgu o bell yn cyfyngu ar ein dysgwyr ieuengaf, sy'n colli allan ar y sylfeini hanfodol ar gyfer eu dysgu a'u datblygiad.

**Bydd ailagor dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen yn disodli dysgu o bell i ddysgwyr yn y grwpiau blwyddyn hyn (Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a 2) ac rydym yn cynghori rhieni / gofalwyr yn gryf i sicrhau bod plant yn mynychu.**

---

**Education, Leisure & Lifelong Learning**  
Aled Evans  
Director of Education, Leisure & Lifelong Learning  
Civic Centre, Port Talbot SA13 1PJ  
Tel 01639 763298

**Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes**  
Aled Evans  
Cyfarwyddwr Addysg Hamdden a Dysgu Gydol Oes  
Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ  
Ffôn 01639 763298

[www.npt.gov.uk](http://www.npt.gov.uk)



Er mwyn i ni barhau â'n hymdrechion rhagorol i gyfyngu'r firws, gofynnwn eto i deuluoedd barhau i arfer ymddygiadau amddiffynnol bob amser, mae'r rhain yn cynnwys golchi dwylo, gwisgo gorchuddion wyneb, glanhau arwyneb, awyru a phellter cymdeithasol. Maen nhw'n parhau i fod y ffyrdd mwyaf effeithiol a buddiol o amddiffyn eich hun, eich teulu, eich ffrindiau a'ch cymuned.

Gofynnwn yn gryf i rieni / gofalwyr roi sylw i'r negeseuon a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol o ran osgoi ymgynnull o amgylch lleoliadau ysgol ac i barchu cyngor yr ysgol ynghylch trefniadau gollwng a chasglu plant. Ar ben hynny, rydym yn disgwyl i rieni / gofalwyr ac ymwelwyr eraill wisgo gorchuddion wyneb ar safle'r ysgol (p'un a ydynt yn mynd i mewn i'r adeilad neu fel arall), gan gynnwys amser gollwng a chasglu.

Yn yr un modd, rydym yn cynghori pob teulu, er bod dychwelyd plant i ddysgu Cyfnod Sylfaen yn gam bach a gofalus tuag at ailagor ehangach, mae'n rhaid i ni barhau i arfer yr un mesurau rheoli yn ein bywydau beunyddiol a fydd yn cyfyngu ar drosglwyddo'r firws, mae hyn yn cynnwys peidio â chaniatáu plant i aros dros nos gyda theuluoedd eraill neu gymysgu y tu allan i'r ysgol, a pheidio ag anfon plant i'r ysgol os oes ganddynt symptomau neu os ydynt wedi profi'n positif am COVID-19.

Rydym hefyd yn cynghori pellter cymdeithasol llym yn ystod y teithiau a wneir gan deuluoedd i ac o ysgolion bob dydd. Bydd cludiant ysgol yn parhau i gael ei ddarparu yn unol â chymhwyster a bydd yn cael ei weithredu yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

Bydd disgwyl o hyd i ysgolion ddarparu addysg i blant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol, a dylai ysgolion arbennig barhau i fod ar agor lle y bo'n bosibl.

Mae Prif Swyddog Meddygol Cymru wedi cadarnhau bod tystiolaeth yn awgrymu bod ysgolion wedi llwyddo i ddarparu amgylcheddau diogel i blant ac athrawon. Rydym yn adleisio'r farn honno. Rydym yn hyderus bod y mesurau rheoli a gymhwyswyd gan ein hysgolion wedi bod yn effeithiol wrth sicrhau y gall plant ddychwelyd i'w dysgu mewn amgylcheddau Covid-diogel yn unol â'r canllawiau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r gwanwyn wrth law ac fe'm hatgoffir o anogaeth Dewi Sant i wneud y pethau bychain; rhaid inni fod yn gyson ac yn gydwybodol yn ein cyfrifoldebau i wneud y pethau bychain ystyriol a all wneud gwahaniaeth sylweddol i fywydau pobl.



Cyngor Castell-nedd Port Talbot  
Neath Port Talbot Council

Rydym yn croesawu ymgysylltiad plant â dysgu wyneb yn wyneb ac yn mawr obeithio y bydd hyn yn arwain at agoriad ehangach yn fuan iawn. Er mwyn i hyn ddigwydd, mae'n rhaid i ni barhau i weithio gyda'n gilydd i fyw bywydau sy'n gyson ymwybodol o Covid ac i amddiffyn rhag Covid. Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i wneud y pethau hyn - y pethau bychain a fydd yn gwneud gwahaniaeth mor fawr.

Yr eiddoch yn gywir,

Aled Evans

Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes,  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

---

**Education, Leisure & Lifelong Learning**

**Aled Evans**

Director of Education, Leisure & Lifelong Learning  
Civic Centre, Port Talbot SA13 1PJ  
Tel 01639 763298

**Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes**

**Aled Evans**

Cyfarwyddwr Addysg Hamdden a Dysgu Gydol Oes  
Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ  
Ffôn 01639 763298

[www.npt.gov.uk](http://www.npt.gov.uk)

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni.

We welcome correspondence in Welsh and will deal with Welsh and English correspondence to the same standards and timescales.